# Rhwydwaith Môr Iwerddon

## Gweledigaeth 2030 y Rhwydwaith ar gyfer Môr Iwerddon

Môr Iwerddon iach a gwydn, wedi'i alluogi gan weithredu cydweithredol, traws-genedlaethol; lle mae bywyd gwyllt morol a chynefino  dd carbon glas yn ff  nnu, gan gefnogi buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd lluosog.

Mae Rhwydwaith Môr Iwerddon yn bartneriaeth arloesol, newydd sy'n cynnwys sefydliadau cadwraeth o amgylch Môr Iwerddon sydd wedi dod at ei gilydd i wella ein heffaith ar y cyd ar fyd natur. Wedi'i sefydlu ym mis Medi 2020, drwy gyllid a ddarparwyd gan Sefydliad Esmée Fairbairn a Sefydliad John Ellerman, mae aelodaeth y Rhwydwaith yn cynnwys cynrychiolwyr o: Ymddiriedolaeth Natur Manaw, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Ymddiriedolaethau Natur Gogledd Orllewin Lloegr, Ymddiriedolaeth Natur yr Alban, y Sustainable Water Network (Iwerddon), Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru ac Ulster Wildlife. Gan ymateb i'r angen dybryd am fwy o gydweithio traws-genedlaethol a rhannu gwybodaeth, nod y Rhwydwaith yw gwella dealltwriaeth o weithgareddau cadwraeth forol a phwysau ar draws Môr Iwerddon, a darparu fforwm ar gyfer cyfathrebu, cydweithredu a mwy o eiriolaeth ar gyfer gwell rheolaeth ar Fôr Iwerddon. Mae'r ddogfen hon wedi'i llunio ar sail y sylfaen dystiolaeth a nodir yn 'Adolygiad Rhwydwaith Môr Iwerddon o gyflwr presennol Môr Iwerddon'.

EMILY BAXTER

The Irish Sea Network members:

Funding partners:

Protecting **Wildlife** for the Future

# Crynodeb: Datganiadau sefyllfa ar y cyd Rhwydwaith Môr Iwerddon

**Cynllunio morol**
Mae Rhwydwaith Môr Iwerddon yn credu y byddai cynllunio gofodol morol rhanbarthol strategol ac e eithiol sy'n defnyddio dull gweithredu seiliedig ar ecosystem, gyda chydweithredu traws-genedlaethol, yn lleihau'r e aith ar gynefino dd bywyd gwyllt sensitif a storfeydd carbon, a achosir gan bwysau aml-sector.

**Ardaloedd Morol Gwarchodedig**
Mae Rhwydwaith Môr Iwerddon o'r farn bod cwblhau rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n cael ei reoli'n dda ac sy'n gydlynol yn ecolegol ar draws Môr Iwerddon yn hollbwysig i warchod ac adfer yr amgylchedd morol.

**Pysgodfeydd cynaliadwy**
Mae gan bysgodfeydd cynaliadwy y potensial i fod o fudd i gymunedau pysgota, cymdeithas yn ehangach a bywyd y môr. Bydd Rhwydwaith Môr Iwerddon, mewn partneriaeth â'r diwydiant pysgota, cymunedau a phobl sy'n gwneud penderfyniadau, yn gweithio tuag at sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy.

**Datrysiadau sy'n seiliedig ar natur**
Mae Rhwydwaith Môr Iwerddon yn cydnabod bod datrysiadau sy'n seiliedig ar natur yn hanfodol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu cymdeithas, yn enwedig e eithiau newid yn yr hinsawdd, ymhlith eraill, gan gynnwys erydu arfordirol, ymchwydd stormydd a llifogydd. Mae'r Rhwydwaith yn credu y gall gweithio gyda natur sicrhau buddion i bobl a bioamrywiaeth.



AMY LEWIS

# Datganiadau sefyllfa ar y cyd Rhwydwaith Môr Iwerddon

**Cynllunio morol**

**Mae Rhwydwaith Môr Iwerddon yn credu y byddai cynllunio gofodol morol rhanbarthol strategol ac effeithiol sy'n defnyddio dull gweithredu seiliedig ar ecosystem, gyda chydweithredu traws-genedlaethol, yn lleihau'r effaith ar gynefinoedd bywyd gwyllt sensitif a storfeydd carbon, a achosir gan bwysau aml-sector. Mae'r Rhwydwaith yn credu y dylai rheolaeth forol effeithiol wneud y canlynol:**

- **Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ecosystem o reoli a chynllunio morol, gan flaenoriaethu gofod ar gyfer adferiad byd natur**
  Dylid rhoi blaenoriaeth i gyflawni neu gynnal Statws Amgylcheddol Da i'r amgylchedd morol er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei warchod ac i atal dirywiad pellach. Yn absenoldeb data digonol sy'n berthnasol i Fôr Iwerddon, rhaid i bob gweithgarwch dynol gadw at yr egwyddor ragofalus.

- **Cymryd camau strategol i leihau'r effaith ar yr amgylchedd**
  Dylai datblygiadau ar y môr fod yn gadarnhaol o ran byd natur, gan ddefnyddio dull strategol a chydlynol o weithredu i leihau eu heffeithiau amgylcheddol ar lefel prosiect yn ogystal ag yn gronnol ar draws yr ecosystemau.

- **Sicrhau bod datblygiadau ynni adnewyddadwy yn defnyddio'r dechnoleg fwyaf priodol, yn y lleoliad mwyaf priodol**
  Dylai datblygiadau ynni adnewyddadwy morol fod yn gadarnhaol o ran byd natur, wedi'u nodi ar ddechrau'r prosiect, a'u defnyddio ar y cyd â thechnolegau a chamau gweithredu eraill (e.e. ymdrechion datgarboneiddio eraill a newidiadau ymddygiad) i gyflawni Targedau Sero Net.

- **Ystyried effeithiau cronnol a chyfunol ar raddfa Môr Iwerddon**
  Mae maint y pwysau presennol a'r pwysau sy'n dod i'r amlwg yn peri risg sylweddol i rywogaethau symudol, cynefinoedd bywyd gwyllt allweddol, a storfeydd carbon glas ym Môr Iwerddon. Dylid cynnal asesiadau effaith cronnol a dylid defnyddio Cynllunio Gofodol Morol sy'n seiliedig ar ecosystem, sy'n benodol ofodol, fel adnodd i gefnogi hyn.

- **Hyrwyddo cyfathrebu a chydweithredu traws-genedlaethol**
  Defnyddio a gwella mecanweithiau presennol i weithio'n draws-genedlaethol i gyfathrebu a chydweithredu ar reolaeth Môr Iwerddon yn ei gyfanrwydd. Mae fforymau statudol ac anstatudol yn darparu llwyfan pwysig ar gyfer cydweithredu traws-genedlaethol y dylid ei ddefnyddio'n ehangach.

EMILY BAXTER

**Ardaloedd Morol Gwarchodedig**
**Mae Rhwydwaith Môr Iwerddon o'r farn bod cwblhau rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n cael ei reoli'n dda ac sy'n gydlynol yn ecolegol ar draws Môr Iwerddon yn hollbwysig i warchod ac adfer yr amgylchedd morol. Mae Rhwydwaith Môr Iwerddon yn credu'r canlynol:**

- **Dylid dynodi a rheoli lleiafswm o 30% o Fôr Iwerddon yn effeithiol ar gyfer adferiad byd natur erbyn 2030.**
  Dylai camau a weithredir o fewn moroedd tiriogaethol sicrhau bod y targed hwn yn cael ei gyrraedd ar lefel môr rhanbarthol gyda mewnbwn gan bob gwlad. Ni all y broses ddynodi yn unig gyrraedd y targed hwn. Rhaid gweithredu cynlluniau monitro a rheoli cyflwr effeithiol fel mater o frys er mwyn bod yn sail i gynnydd yn erbyn y targed.

- **Mae angen gweithredu mesurau rheoli effeithiol ym mhob un o'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol ac yn y dyfodol ym Môr Iwerddon**
  Dylid rhoi blaenoriaeth i reolaeth effeithiol ar safleoedd alltraeth presennol. Dylid cydnabod bod gweithgareddau niweidiol (mewn perthynas â'r nodweddion dynodedig) yn anghydnaws ag Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Dylid cydnabod nad yw Ardaloedd Morol Gwarchodedig heb reolaeth briodol yn cyflawni'r amcanion ecolegol neu gymdeithasol o warchodaeth.

- **Dylai'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ym Môr Iwerddon gynnwys ardaloedd sydd wedi'u diogelu'n llawn rhag defnyddiau echdynnol, dinistriol a dyddodol**
  Dylid defnyddio ardaloedd gwarchodedig llawn[1], ar ffurf Ardaloedd Morol Hynod Warchodedig[2] neu ddynodiadau eraill, i gyflawni amcanion bioamrywiaeth, hinsawdd a chymdeithasol. Dylid mabwysiadu dull gweithredu safle cyfan wrth weithredu ardaloedd gwarchodedig llawn. Dylid rhoi blaenoriaeth i ardaloedd sy'n cynnwys y rhywogaethau, y cynefinoedd neu'r ardaloedd chwilio am fwyd pwysicaf, prin neu dan fygythiad.

- **Rhaid defnyddio rhaglenni monitro strategol ac ymchwil cydweithredol yn sail i linellau sylfaen ac asesu effeithiolrwydd mesurau rheoli**
  Bydd rhaglenni arolygu a monitro sy'n gwella rhannu gwybodaeth a data ar draws llywodraethau, sefydliadau a diwydiant yn sail i ymdrechion i sefydlu effeithiolrwydd y rheolaeth ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Dylid rhoi blaenoriaeth i gyflawni prosiectau traws-genedlaethol ac ymdrechion cadwraeth cydweithredol sy'n benodol i rywogaethau.

- **Dylai dylunio a dynodi Ardaloedd Morol Gwarchodedig newydd ym Môr Iwerddon gryfh u, ategu a llenwi bylchau yn y rhwydwaith presennol i gael yr e aith fwyaf posibl**
  Os oes bylchau'n parhau yn y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig (e.e. ar gyfer rhywogaethau morol ac adar môr) neu fod dynodiadau newydd yn cael eu cyflwyno, bydd cydlynu rhwng gwledydd yn helpu i ychwanegu gwerth drwy gynyddu maint a gwella cysylltedd a chynrychioldeb yr ardaloedd dynodedig presennol.

[1] Diffiniad o'r Canllaw Ardaloedd Morol Gwarchodedig: https://mpa-guide.protectedplanet.net/
[2] Adolygiad Benyon i Ardaloedd Morol Hynod Warchodedig, Adroddiad Terfynol, Mehefin 2020

NIKI CLEAR

## Pysgodfeydd cynaliadwy

**Mae gan bysgodfeydd cynaliadwy y potensial i fod o fudd i gymunedau pysgota, cymdeithas yn ehangach a bywyd y môr. Bydd Rhwydwaith Môr Iwerddon, mewn partneriaeth â'r diwydiant pysgota, cymunedau a phobl sy'n gwneud penderfyniadau, yn gweithio tuag at sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy sy'n gwneud y canlynol:**

- **Mabwysiadu dull seiliedig ar ecosystem o weithredu, gan roi adferiad yr amgylchedd morol wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau**
  Mae angen integreiddio cadwraeth forol a rheolaeth ar bysgodfeydd sy'n seiliedig ar ecosystem er mwyn cynnal bioamrywiaeth a swyddogaeth yr ecosystem. Rhaid i'r gwaith o asesu effeithiau gweithgareddau pysgota a gwneud penderfyniadau am reoli pysgodfeydd gael ei gynnal ar lefel ecosystem Môr Iwerddon.

- **Cydnabod pwysigrwydd Ardaloedd Morol Gwarchodedig i gynnal poblogaethau o bysgod**
  Bydd rheolaeth effeithiol ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn gofyn am gyfyngiadau ar ddulliau pysgota niweidiol sy'n atal safleoedd rhag cyflawni eu hamcanion cadwraeth. Bydd rheolaeth effeithiol hefyd yn arwain at fanteision hirdymor i bysgodfeydd a'r amgylchedd morol ehangach.

- **Cadw at y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael a defnyddio'r dechnoleg orau sydd ar gael**
  Bydd cyngor rheoli pysgodfeydd rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol blaenllaw ar y cyd â mewnbwn gan randdeiliaid lleol yn sail i benderfyniadau da. Mae angen ymrwymiadau i ddyrannu cyllid i gefnogi ymchwil pysgodfeydd cydweithredol ac arloesi technolegol i leihau sgil-ddaliad a difrod i gynefinoedd ac ecosystemau.

- **Dangos atebolrwydd llawn am bysgota sy'n digwydd ym Môr Iwerddon**
  Bydd y defnydd gorfodol o Fonitro Electronig o Bell ac iVMS ar gyfer pob llong sy'n gweithredu ym Môr Iwerddon yn gwella'r data a'r wybodaeth sydd ar gael i helpu i wneud penderfyniadau gorfodi a rheoli gwell ar gyfer Môr Iwerddon.

- **Cyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfyngau bioamrywiaeth a hinsawdd**
  Dylid defnyddio meini prawf tryloyw a gwrthrychol i ddyrannu cyfleoedd pysgota a chwota i arferion pysgota sydd: yn gwneud y lleiaf o niwed i fywyd gwyllt hanfodol a chynefinoedd carbon glas; yn lleihau allyriadau carbon fflyd; ac yn cyflawni'r buddion cymdeithasol mwyaf – e.e. fflydoedd pysgota arfordirol lleol, ar raddfa fechan gan ddefnyddio arferion dethol. Dylid rheoli capasiti fflyd i sicrhau'r ymdrech orau bosibl i'r holl bysgota gael ei osod o fewn terfynau ecolegol.

- **Sicrhau cydweithrediad rhwng gwledydd ym Môr Iwerddon**
  Bydd cydweithredu traws-genedlaethol ymhlith chwe gwlad Môr Iwerddon yn cefnogi datblygu a chyflawni cynlluniau rheoli pysgodfeydd aml-awdurdodaeth. Dylai fod gan y rhain amcanion terfyn amser clir i adfer a chynnal poblogaethau iach o bysgod.

EMILY BAXTER


**Datrysiadau sy'n seiliedig ar natur**
**Mae Rhwydwaith Môr Iwerddon yn cydnabod bod e eithiau hinsawdd ar yr amgylchedd morol eisoes i'w canfod ac mae'n ystyried bod datrysiadau sy'n seiliedig ar natur yn hanfodol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu cymdeithas. Mae'r Rhwydwaith yn credu y gall gweithio gyda byd natur sicrhau buddion i bobl a bioamrywiaeth ac y dylid blaenoriaethu'r camau gweithredu canlynol:**

- **Nodi, gwarchod ac adfer cynefinoedd carbon glas pwysig ym Môr Iwerddon i gynyddu dal a storio carbon a bioamrywiaeth**
  Dylid nodi dalfeydd a ffynonellau carbon glas pwysig o fewn a thu hwnt i'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig er mwyn osgoi colli carbon sydd wedi'i ddal a'i storio yn flaenorol ac i ddiogelu ac adfer cynefinoedd carbon glas hanfodol. Dylid canolbwyntio ar leihau gweithgareddau sy'n bygwth storfeydd carbon glas drwy darfu ffisegol a rheoli tir arfordirol.

- **Nodi a buddsoddi mewn cyfleoedd i ddatblygu datrysiadau sy'n seiliedig ar natur**
  Dylid addasu ochr yn ochr â mesurau lliniaru, gan ymgorffori datrysiadau sy'n seiliedig ar natur i ymdrin â'r argyfwng hinsawdd. Dylid canolbwyntio ar alinio arfordirol dan reolaeth ac adfer cynefinoedd allweddol gan gynnwys morfa heli, morwellt, twyni tywod, gwelyau pysgod cregyn, a gwlybdir arfordirol.

- **Dylunio, gweithredu, rheoli a monitro datrysiadau sy'n seiliedig ar natur ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, gydag ymgysylltu cymdeithasol yn greiddiol**
  Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r buddion a rennir o adfer amgylcheddol drwy gydweithio â diwydiant, awdurdodau, cymunedau lleol, a defnyddwyr y môr yn lleol, yn rhanbarthol ac ar draws gwledydd Môr Iwerddon.

- **Ymgorffori datrysiadau sy'n seiliedig ar natur o fewn addasu i'r hinsawdd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd**
  Dylid ymgorffori datrysiadau sy'n seiliedig ar natur, cyfalaf naturiol a gwasanaethau ecosystem fel elfennau craidd o benderfyniadau a strategaethau rheoli Cynllunio Morol, cynlluniau sector, a pholisïau, gan gynnwys sut bydd gwledydd yn addasu i ddelio â'r argyfwng hinsawdd ar raddfa Môr Iwerddon. Mae angen cymhellion Llywodraeth, fframweithiau cyfreithiol ac ymrwymiadau ariannol i weithredu datrysiadau seiliedig ar natur gwydn ar draws yr holl wledydd, gyda chamau ymarferol yn cael eu cymryd i leihau'r risg y mae newid yn yr hinsawdd yn ei pheri i'n hamgylchedd a'n cymunedau.



PAUL NAYLOR

**www.livingseasnw.org.uk/what-we-do/marine-conservation-projects/marine-policy/irish-sea-network**